

Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych

Newyddlen 1 Ionawr 2020

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Ysbyty Cymuned newydd Gogledd Sir Ddinbych yn y Rhyl

Yn 2013, ymrwymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu'r ysbyty cymuned yn y Rhyl gyda chymeradwyaeth Achos Busnes Strategol. Yn awyddus i sicrhau y byddai'r ysbyty newydd yn bodloni anghenion poblogaeth sy'n newid a datblygiadau mewn iechyd a gofal cymdeithasol, ymgwymerodd y Bwrdd Iechyd ag ymchwil berthnasol a siarad â phartneriaid, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, cleifion a'r boblogaeth leol.

Yn 2018, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Amlinelliad Achos Busnes ar gyfer cyllid i Lywodraeth Cymru. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ei chymeradwyaeth i barhau at y cam nesaf yn 2019.

Mae'r Bwrdd Iechyd bellach ar y cam nesaf yn y broses, datblygu'r Achos Busnes Llawn ar gyfer yr ysbyty newydd, a fydd yn cael ei adeiladu drws nesaf i'r ysbyty sy'n bodoli eisoes, sef Ysbyty Brenhinol Alexandra, ac adnewyddu'r adeilad presennol. Mae cynlluniau manwl yn awr



yn cael eu datblygu. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys pa wasanaethau fydd wedi'u lleoli yn yr ysbyty, a manylion ar y cyfleusterau ac amgylchedd gwell ar gyfer y safle. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid adeiladu a'n rhanddeiliaid i gadarnhau'r cynllun, cael caniatad cynllunio a chrynhof'r Achos Busnes Llawn ar gyfer ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2020.

Os aiff popeth yn iawn bydd yr ysbyty newydd yn barod yn ddiweddarach yn 2022 a bydd y gwaith o ailwampio'r adeilad presennol yn cael ei gwblhau yn 2023.

Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych

Newyddlen 1 Ionawr 2020

Y ganolfan iechyd a lles newydd

Mae cynllun modern yr ysbyty newydd yn manteisio ar ffyrdd newydd o weithio gyda phartneriaid mewn gofal cymdeithasol ac yn y gymuned. Bydd yn darparu cyfleusterau modern, addas at eu diben ar gyfer gwasanaethau newydd ac sy'n bodoli eisoes ar y safle yn cynnwys

- Gwelyau cleifion mewnol
- Gwasanaethau ar yr un diwrnod ar gyfer trin mân anafiadau ac anhwylderau
- Canolfan lles cymunedol a chaffi cymunedol
- Clinigau cleifion allanol
- Gwasanaethau Integredig Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Diagnosteg
- Gwasanaethau Therapi
- Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol
- Gwasanaethau Iechyd Rhyw Estynedig
- Darpariaeth swyddfa wedi'i hadnewyddu yn yr adeilad presennol ar gyfer

Am fwy o wybodaeth:

BCU.RAHFeedback@wales.nhs.uk

Cyfarwyddwr Prosiect

Gareth.Evans5@wales.nhs.uk

Rheolwr Rhaglen

Stephanie.O'Donnell@wales.nhs.uk

Digwyddiadau allweddol a Dyddiadau Targed

Tachwedd - Rhagfyr 2019	Paratoi'r tim prosiect gyda'n partneriaid, Gleeds a Kier
Rhagfyr 2019 - Mehefin 2020	Dylunio a Chynllunio
Medi 2020	Ymateb Llywodraeth Cymru
Rhagfyr 2020	Cymeradwyo Achos Busnes Llawn gan Lywodraeth Cymru
Mawrth 2021	Dechrau ar y gwaith adeiladu
Hydref 2022	Adeilad Newydd yn weithredol
Mehefin 2023	Cwblhau Gwaith Ailwampio i Adeilad Presennol Ysbyty Brenhinol Alexandra